Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

24 Mai 2010

Mae plant ac ystafelloedd dosbarth eto i brofi effaith lawn y Rhaglen Hyfforddi Genedlaethol ar gyfer ymarferwyr yn y Cyfnod Sylfaen, meddai arolygwyr

Heddiw, fe wnaeth Estyn, yr arolygiaeth addysg a hyfforddiant i Gymru, gyhoeddi ei adroddiad dros dro *'Hyfforddiant yn y Cyfnod Sylfaen a'i effaith ar ddysgu ac addysgu'.* Mae'r adroddiad, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn edrych ar ba mor dda y mae'r Rhaglen Hyfforddi Genedlaethol ar gyfer ymarferwyr yn y Cyfnod Sylfaen yn cael ei rhoi ar waith a pha effaith y mae'n ei chael ar arfer ystafell ddosbarth ac ar ddysgu plant.

Canfu arolygwyr fod tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod medrau dysgu plant yn gwella a bod y rhaglen yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd dysgu, er nad oes modd priodoli'r gwelliannau hyn yn uniongyrchol i effaith y rhaglen.

At ei gilydd, canfu arolygwyr fod yr hyfforddiant wedi cael ei drefnu'n dda, ond mewn rhai achosion, roedd ymarferwyr yn ei chael yn anodd mynychu'r hyfforddiant yn rheolaidd oherwydd ei fod yn achosi aflonyddwch yn eu hysgol neu'u lleoliad a bod angen trefnu staff llanw. Gwelwyd hefyd nad oedd y dull yn gost effeithiol. Canfu arolygwyr hefyd fod diffyg hyfforddiant penodol ar gyfer penaethiaid ac uwch reolwyr a oedd yn canolbwyntio ar sut i arfarnu effeithiolrwydd dulliau addysgu newydd wrth ddatblygu dysgu plant.

Mae canfyddiadau hefyd yn dangos bod diffyg data cymharol ar draws pob awdurdod lleol ar nifer y staff sy'n mynychu'r hyfforddiant ym mhob awdurdod lleol. Yn ychwanegol, nid yw'r data yn dangos a yw staff sy'n mynychu'r hyfforddiant yn ymarferwyr plant dan bump oed neu'n ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant hŷn.

Dywed Ann Keane, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, *“Mae gormod o anghysondeb yn y ffordd y mae awdurdodau lleol yn casglu data i ddarparu darlun cenedlaethol ystyrlon o bwy yn union sydd wedi hyfforddi i ddangos gwir effaith y rhaglen hon.”*

“Fodd bynnag, rydym ni’n gwybod o’n hymchwil bod y rhan fwyaf o ymarferwyr yn gadarnhaol iawn ynglŷn â’r hyfforddiant y maen nhw’n ei gael ac mae camau eisoes yn cael eu cymryd i fynd i’r afael â rhai o’r materion yr ydym wedi’u nodi yn ein hadroddiad am yr arweiniad a’r hyfforddiant ychwanegol sy’n cael eu cynnig gan rai awdurdodau lleol a monitro ansawdd hyfforddiant y Cyfnod Sylfaen yn ffurfiol.”

Mae Estyn wedi gwneud nifer o argymhellion yn eu hadroddiad ar gyfer ysgolion a lleoliadau, ac awdurdodau lleol, yn ogystal â Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn gyntaf, mae’r arolygiaeth yn galw ar ysgolion a lleoliadau i rannu arfer dda gyda’i gilydd ac i ddatblygu gweithdrefnau arfarnu cryf i fonitro effaith hyfforddiant ar addysgu a dysgu plant.

Caiff awdurdodau lleol eu hannog i gyflwyno’r rhaglen ar gyfer ymarferwyr sy’n gweithio gyda phlant hŷn i adolygu sut caiff yr hyfforddiant ei gyflwyno er mwyn ei wneud yn fwy hygyrch a chost effeithiol ac i leihau’r aflonyddwch a achosir mewn ysgolion a lleoliadau. Mae Estyn hefyd yn argymell y dylai awdurdodau lleol dargedu hyfforddiant a chymorth lle mae ei angen fwyaf.

Yn olaf, mae’r arolygiaeth yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu data mwy cydlynus ar faint o hyfforddiant y mae ymarferwyr wedi manteisio arno ac mae’n adolygu arweiniad ar gyfer ymarferwyr sy’n gweithio gyda phlant hŷn.

-DIWEDD-

I drefnu cyfweliad, yn Gymraeg neu yn Saesneg, neu i gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Gina Carrington
Y Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gov.uk
02920 446454

Nodiadau i Olygyddion:

Ynglŷn â'r adroddiad

- Comisiynwyd adroddiad Estyn 'Hyfforddiant yn y Cyfnod Sylfaen a'i effaith ar ddysgu ac addysgu' gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae ar gael yn llawn yn http://www.estyn.gov.uk/ThematicReports.asp

- Mae sail y dystiolaeth yn cynnwys dadansoddiad o arolwg o arfer hyfforddi ym mhob awdurdod lleol; ymweliadau â 15 o leoliadau ac ysgolion ledled Cymru; trafodaethau gydag 20 o benaethiaid, ymarferwyr arweiniol; cyfweliadau gyda thri sefydliad hyfforddi pwysig; arolwg o swyddogion Datblygu'r Cyfnod Sylfaen a chraffu ar dystiolaeth ddogfennol, gan gynnwys holl adroddiadau arolygu Estyn ar leoliadau ac ysgolion cynradd a arolygwyd yn ystod blwyddyn academaidd 2008-2009.

Ynglŷn ag Estyn

Estyn yw'r Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Ein nod yw cyflawni rhagoriaeth i bawb mewn dysgu yng Nghymru. Rydym yn gwneud hyn trwy ddarparu gwasanaeth arolygu a chyngor annibynnol o ansawdd uchel.

Ein gweledigaeth yw cael ein cydnabod trwy arbenigedd ein staff fel llais awdurdodol ar ddysgu yng Nghymru.

Rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru, ond yn cael ein hariannu ganddi (o dan Adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998).

I gael mwy o wybodaeth, trowch at ein gwefan www.estyn.gov.uk